



Bwdhaeth a Gwyddoniaeth

Mae Bwdhaeth yn grefydd a ddisgrifiwyd fel athroniaeth ac fel gwyddoniaeth. Yn aml, caiff ei ystyried yn ffordd o fyw yn hytrach na chrefydd. Yn wir, gellir ystyried bod ei ymagwedd yn un 'wyddonol'

Disgrifiodd y Bwdha fydsawd nad oedd wedi'i chreu gan Dduw ond a oedd yn gweithredu yn unol â chyfreithiau achosiaeth. Yn wir, nid gweddi, mantra na datganiad o ffydd yw'r datganiad enwocaf mewn Bwdhaeth, ond crynodeb o ddysgeidiaeth y Bwdha: "o'r pethau hynny sydd ag achosion, mae wedi dangos eu hachosion. Ac mae hefyd wedi dangos eu diwedd."

Roedd y Bwdha yn deall gweithredoedd y meddwl yn fanwl iawn, gan egluro sut mae dyhead, casineb ac anwybodaeth yn ysgogi gweithredoedd sy'n arwain yn y pen draw at bob math o boen corfforol a meddyliol, a sefydlodd yr arfer o fyfyrwyr er mwyn dod â'r meddwl parablus a'r emosiynau afreolus dan reolaeth er mwyn cyrraedd cyflwr o dawelwch.

Dadansoddodd y Bwdha hefyd yr elfennau corfforol a meddyliol sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n berson, gan fethu â dod o hyd i unrhyw beth yn eu mysg sy'n para mwy nag ennyd. Felly, canfu, drwy ei ddadansoddiadau, nad oes hunan, nad oes enaid, mai dim ond proses seicogorfforol yw'r hyn a elwir yn berson, a bod sylweddoli'r gwirionedd sylfaenol hwn yn arwain at ryw fath o ryddhad.

Yna, ehangodd y Bwdha ei ddadansoddiad i'r bydysawd, gan ddatgan gwirionedd cyffredinol pratīyasamutpāda, dechreuad dibynnol, yn ôl yr hyn y mae popeth yn gysylltiedig, mae pob endid yn gysylltiedig â rhywbeth, nid oes unrhyw beth yn sefyll ar ei ben ei hun, gyda'r effeithiau yn dibynnu ar eu hachosion, gyda'r cyfain yn dibynnu ar eu rhannau, a gyda phopeth yn ddibynnol ar gyfer ei fodolaeth ar yr ymwybyddiaeth sy'n ei ganfod. Eto, p'un a yw'n don neu'n ronyn, nid oes unrhyw ansicrwydd ynghylch natur sylfaenol realiti, a alwodd y Bwdha yn śūnyatā, neu wacter.

Canfu'r Bwdha y gwirioneddau hyn, nid drwy ddatguddiad ond drwy ymchwilio a dadansoddi, gan brofi damcaniaethau yn labordy ei feddwl cyn cael tystiolaeth. Cyfleoedd y gwirioneddau hyn yn ei ddysgeidiaethau, sef y dharma, gwirioneddau nad ydynt yn deillio o ffydd, ond o brofiad y Bwdha ei hun. Ac ar ôl dod i'r casgliadau hyn, ni wnaeth ddatgan eu bod yn amodau ffydd, ac mae'n hysbys iddo ddweud wrth ei ddilynwyr: "O fynachod, fel aur sydd wedi'i gynhesu, ei dorri a'i rwbio, dylai'r doeth ddadansoddi



fy ngeiriau ac yna eu derbyn; ni ddylent wneud hynny allan o barch.”

Roedd y Bwdha'n osgoi pob cwestiwn cosmolegol a oedd yn ymwneud â Duw a/neu'r bydysawd. I'r Bwdha, doedd materion fel hyn ddim yn arwyddocaol o gwbl. Er nad oedd y cwestiynau am Dduw'r creawdwr neu darddiad y bydysawd yn broblemau athronyddol neu ddiwinyddol i'w hosgoi ar bob cyfrif, ar yr un pryd, doedden nhw chwaith ddim yn 'fater' yr oedd angen gwahodd pobl i ddadlau yn eu cylch yn agored. Caiff ei ddifaterwch mewn perthynas â chwestiynau o'r fath ei bortreadu drwy lenyddiaeth Fwdhaidd.

Mae gan y testunau Pali a Sansgrit enghreifftiau amlwg lle cafodd y Bwdha ei herio ar faterion metaffisegol. Mewn achosion fel hyn, roedd y Bwdha'n gyndyn o ymgysylltu â materion a oedd yn rhai damcaniaethol yn ei farn ef, nad oedden nhw'n amlwg yn berthnasol i natur empirig y broblem o dan sylw – sef dioddefaint a chael gwared ar ddioddefaint.

Ystyriwyd bod cwestiwn am Dduw, y bydysawd neu yn wir am yr enaid yn 'avyakṛta' – sef “wedi'i ffurfio'n anghywir”. Roedd naill ai camsyniadau cynhenid yn y cwestiwn ei hun, neu doedd cwestiwn fel hwn ddim yn ffafriol i Oleuedigaeth. Roedd dameg y saeth yn crynhoi ei ymateb i faterion fel Duw'r creawdwr neu darddiad y bydysawd.

‘Mae cwestiynau mor fyfyrgar yn rhoi'r argraff na fydd dyn, pan gaiff ei glwyfo mewn brwydr gan saeth, yn derbyn help nes bydd yn gwybod yr atebion i gwestiynau fel ‘pwy â'i saethodd?', ‘o ble y daeth?', ‘sut y'i gwnaed a gyda beth?’ a ‘gan bwy y'i saerniwyd?’.

Y canolbwynt a'r flaenoriaeth i Fwdhydd yw cael gwared ar y broblem o dan sylw a pheidio ag edrych y tu hwnt iddi am atebion sydd ddim yn ddefnyddiol i'r broblem uniongyrchol. Rwy'n dioddef oherwydd fy mod i'n trachwantu am bethau, rwy'n dyheu am i bethau bara am byth ac rwy'n methu gweld y tu hwnt i anwybodaeth fy nghyflwr dynol. Ni fyddai'r cwestiwn a oes Duw ai peidio yn newid ffactorau sylfaenol bodolaeth na'm cyflwr dynol chwaith. Byddai sylweddoli achos dioddefaint a'i atal, a'i rwystro rhag codi eto yn fy rhyddhau o ddioddefaint, ac o'r angen am ddyfalu yn sgil hynny.

I Fwdhydd, mae'r ateb yn union o'n blaenau ac yn rhan o hanfod dioddefaint a'r cyflwr dynol ei hun. Nid yw yn yr awyr, fry yn y nefoedd neu mor annealladwy fel na allwn ei gyrraedd. Dylai'r cwestiwn perthnasol gael ei gyfeirio tuag aton ni ein hunain a'r ateb sydd ynom ni.



Dioddefaint yw'r broblem a dylem geisio ei ddileu. Ar ôl cael gwared ar y saeth, gallwch ofyn unrhyw gwestiwn myfyrgar ag y mynnwch. Ond, efallai y byddwch yn gweld, wrth gael gwared ar y saeth, eich bod hefyd yn cael gwared ar yr angen i ofyn cwestiynau fel hyn yn y lle cyntaf.

Ateb: Gellir ystyried Bwdhaeth mewn termau gwyddonol ac o ran rhannu safbwynt gwyddonol ar fywyd. Mae pethau'n gweithio yn unol ag achos ag effaith a dim ond ffurfweddau meddyliol a chorfforol ydym ni heb unrhyw sylwedd ysbrydol. Nid oes hanfod yn perthyn i unrhyw beth yn y pen draw. Fodd bynnag, caiff y cwestiwn o Dduw sylfaenol ei osgoi bob amser gan Fwdhyddion am nad yw'n berthnasol i ddamcaniaethu. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r broblem dan sylw, sef dioddefaint.



Dysgeidiaethau'r Dalai Lama am wyddoniaeth a Bwdhaeth

Yn 2000, rhoddodd y Dalai Lama araith yn dwyn y teitl 'Angen ac Arwyddocâd Gwyddoniaeth Fodern' i abadau o'r prif ganolfannau dysgu mynachaid Tibetaidd ac i gannoedd o ysgolheigion ac arweinwyr mynachaid Tibetaidd allweddol.

Yn ei araith, eglurodd y Dalai Lama i ddechrau, bod gwerth gwyddoniaeth i Fwdhaeth Tibetaidd i'w weld yn y ffaith ei bod wedi dylanwadu'n fawr iawn mewn ffordd gadarnhaol ar fywydau pobl drwy eu gwella. 'Cafodd datblygiadau ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n byw yn y byd hwn. Mae wedi manteisio'n uniongyrchol ar y bobl drwy eu helpu i fyw bywyd gwell a mwy cyfforddus.'

Yn benodol, roedd y Dalai Lama yn honni mai'r hyn a ystyriwyd yn 'grefft pobl o'r tu allan o wella' yn y Gorllewin oedd hyn, a arweiniodd at ddiagnosis a meddyginiaeth gywir yn hytrach na 'dim ond defodau yn seiliedig ar ddysgeidiaethau fel y Tantra Meddyginiaethol a bregethir gan Fwdha Bhaishajya'. Bwdha Bhaishajya yw'r Bwdha Meddyginaeth ym Mwdhaeth Mahayana a chaiff ei ystyried yn uwch iachawr. Ystyrir bod myfyrio ar Fwdha Bhaishajya yn ddull pwerus iawn o sicrhau iechyd ac iachâd i'ch hun ac i eraill. Mewn achos o salwch corfforol, ystyrir bod adrodd mantra Bwdha Bhaishajya dros ddŵr ac yna yfed y dŵr yn ddull adferol pwysig.

Ail bwynt a wnaed gan y Dalai Lama oedd bod gwyddoniaeth yn werthfawr am ei fod yn 'fanwl a chywir iawn' wrth ddadansoddi'r 'byd materol, esblygiad y bydysawd, a natur sylweddau cemegol.' Credai y byddai hyn yn ategu ac yn datblygu arsylwadau Bwdhaidd yn y maes hwn.

Mae'r trydydd maes a nodwyd gan y Dalai Lama o ran gwerth gwyddoniaeth yn un syml mewn perthynas â dyfodol Bwdhaeth i Dibetiaid yn Nhibet a'r tu hwnt. Mae'r byd modern yn dibynnu ar 'ymdrech ac arbrosi parhaus gyda gwyddoniaeth a thechnoleg, yn hytrach na chlirwelediad cyfriniol neu bwerau gwyrthiol'. Felly, mae'n dadlau mai dim ond drwy ddwyn gwyddoniaeth a Bwdhaeth ynghyd y caiff 'cred ac argyhoeddiad' eu creu ym meddyliau'r genhedlaeth newydd o Dibetiaid yn arbennig am eu bod eisoes yn mwynhau llawer o'r hyn y mae technoleg fodern wedi'i roi iddynt.



Mae'r pedwerydd pwynt yn fwy athronyddol sef bod gwyddoniaeth yn werthfawr am ei bod yn seiliedig ar ymchwil empirig, ac felly ei bod ond yn ymdrin â realiti a'r gwirionedd. Mae'r Dalai Lama yn ystyried crefyddau eraill fel ideolegau 'yn seiliedig ar gred mewn duw fel y creawdwr hollalluog'. Mewn crefyddau o'r fath 'ymgysegriad pwynt unigol yw ffydd'. I'r gwrthwyneb, mae'n ystyried bod Bwdhaeth ei hun yn cyfuno ffydd a doethineb. O ganlyniad, mae Bwdhaeth, yn wahanol i unrhyw grefydd arall, yn seiliedig ar realiti a gwirionedd. Mae hyn yn golygu bod gwyddoniaeth yn werthfawr am ei fod, yn y bôn, yn gwneud beth mae Bwdhaeth yn ei wneud.

[wedi'i addasu o *Buddhism* gan Nick Heap]